

CANLLAWIAU I'W DILYNU AR GYFER HYSBYSEBU AR CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

1. Rhaid gwneud pob cais am hysbysebu ar Gerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat yn ysgrifenedig i'r Tîm Trwyddedu a rhaid cynnwys sampl o'r hysbysebu arfaethedig.
2. Rhaid i ansawdd y cyflwyniadau fod o safon dderbyniol. Ni dderbynnir unrhyw ffacsys. Rhaid darparu gwaith celf lliw ym mhob achos a rhaid darparu manylion llawn y cynigion hysbysebu. **(Nodyn: Mae'n hanfodol bod holl fanylion yr hysbyseb arfaethedig yn cael eu dangos yn y cyflwyniad gwreiddiol. Os nad ydynt, yna gellir gwrthod yr hysbyseb wedi hynny.)**
3. Bydd y cyflwyniad, os ystyrir ei fod yn dderbyniol, yn cael **Cymeradwyaeth Dros Dro**.
4. Rhoddir **Cymeradwyaeth Derfynol unwaith y bydd yr hysbyseb wedi'i gosod ar y cerbyd. Rhaid gwneud apwyntiad gyda Swyddog Trwyddedu Tacsis ar gyfer archwiliad terfynol pan fydd y Swyddog yn cadarnhau bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r gymeradwyaeth dros dro a roddwyd.**
5. Bydd yn ofynnol i berchennog unrhyw gerbyd sy'n arddangos hysbyseb nad yw wedi cael ei harchwiliad terfynol ei symud ar unwaith.
6. Bydd cerbydau sy'n arddangos hysbysebion heb gymeradwyaeth y Cyngor yn groes i'r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded y cerbyd a gallant fod yn agored i gael eu hatal nes bod y deunydd wedi'i dynnu o'r cerbyd.
7. Rhaid i bob hysbysebu gydymffurfio â Chodau Hysbysebu a Hyrwyddo Gwerthu Prydain ac mae'n gyfrifoldeb yr asiantaeth neu'r unigolyn sy'n ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod Trwyddedu i sicrhau eu bod yn gwneud hynny.
8. Dim ond ar ddrysau cefn y teithwyr y dylid gosod unrhyw hysbyseb a gymeradwyir, islaw'r ffenestri **ac eithrio'r " arwyddion adnabod"** sy'n arddangos manylion y cwmni (gweler Pwynt 12 isod), y gellir eu harddangos ar ddrws blaen y cerbyd, islaw'r ffenestr, a rhaid iddynt beidio â chuddio'r arwydd sy'n arddangos rhif trwydded y cerbyd.
9. Rhaid i ddeunyddiau a ddefnyddir ar gyfer hysbysebu fod o ansawdd na ellir eu difwyno na'u datgysylltu'n hawdd. Ni ddylid defnyddio deunyddiau papur na glud gludiog sy'n hydoddi mewn dŵr. Rhaid gosod hysbysebion yn uniongyrchol ar baneli drws cefn allanol y cerbyd neu eu cysylltu'n gyntaf â phanel magnetig cymeradwy, sydd wedyn yn cael ei gysylltu â'r cerbyd.
10. Ni ddylid defnyddio deunydd adlewyrchol at ddibenion hysbysebu.
11. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ond ni fydd yr hysbysebion canlynol yn cael eu cymeradwyo:
 - Y rhai sydd â thestunau gwleidyddol, hiliol, crefyddol, rhywiol neu ddadleuol;
 - Y rhai ar gyfer asiantaethau hebrwng, sefydliadau gemau neu barlyrau tylino;
 - Y rhai sy'n arddangos ffigurau noeth neu hanner noeth;
 - Y rhai sy'n debygol o dramgwyddo chwaeth y cyhoedd (yn darlunio trais, iaith anwedus neu annymunol);
 - Y rhai sydd â chyfeiriad at alcohol, tybaco/sigaréts a chyffuriau;
 - Y rhai sy'n hyrwyddo prisiau gostyngedig;
 - Y swyddi hysbysebu hynny;
 - Y rhai sy'n tynnu oddi ar gyfanrwydd a/neu hunaniaeth y cerbyd;
 - Y rhai sy'n ceisio hysbysebu mwy nag un cwmni/gwasanaeth neu gynnyrch.

12. Arwyddion Adnabod – rhaid gosod arwyddion sy'n nodi enw'r cwmni a'r rhif ffôn yn ddiogel wrth ymyl y sticeri drws sy'n dangos rhif trwydded y cerbyd a rhaid iddynt gael Cymeradwyaeth Dros Dro a Therfynol.